

CYNGOR SIR Y FFLINT
ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

NEWID ARFAETHEDIG I GYFFORDD Â SIGNALAU AR Y B5129 DWYRAIN FFORDD
CAER GYDA LÔN SHOTTON A KETLAND CLOSE, GLANNAU DYFRDWY

RHODDIR RHYBUDD drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, gan arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

Newid y trefniant â signalau presennol i gynnwys signalau traffig Porth Bws/Blaenoriaeth newydd yn y lleoliadau a ddisgrifir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn.

Rheswm dros y Cynnig: Ar ôl datblygu'r cynigion lôn bws, nodwyd yr angen am system signalau traffig blaenoriaeth i fysiau. Bydd hyn yn galluogi cerbydau i uno'n ddiogel ar ffordd unffrwd yn y lleoliad hwn â signalau.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y cynlluniau'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y cynnig yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Gorllewin Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy CH5 1SA a Chyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd Yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau gwaith arferol.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi llofnodi isod erbyn 20 Mawrth 2020 gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/LR/DLC

ATODLEN

Newid y trefniant signalau presennol i gynnwys signalau traffig Porth Bws/Blaenoriaeth newydd

Yng nghyffordd y B5129 Dwyrain Ffordd Caer gyda Lôn Shotton a Ketland Close, Glannau Dyfrdwy

Dyddiedig 28 Chwefror 2020



Stephen O Jones
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant)
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NR

CYNGOR SIR Y FFLINT
ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

CYNNIG I OSOD CROESFAN Â SIGNALAU AR Y B5129 CHESTER ROAD EAST GER Y
GYFFORDD Â CHANOLFAN HAMDDEN GLANNAU DYFRDWY, QUEENSFERRY

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, gan arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig-

Gosod Croesfan Twcan i Gerddwyr o fewn y gyffordd â signalau traffig newydd yn y lleoliadau a ddisgrifir yn Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Rheswm dros y Cynnig: Ar ôl datblygu'r cynigion cysylltiedig â lonydd bws, dynodwyd yr angen am signalau traffig ar gyfer cerddwyr sy'n mynd i mewn ac allan o Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy o ganlyniad i'r bwriad i gael gwared ar y bont droed, a hefyd yr anawsterau y mae holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn eu profi wrth fynd i mewn ac allan o'r ganolfan hamdden. Am y rheswm hwn datblygwyd y cynnig i osod signalau Twcan yn y lleoliad hwn. Bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r anawsterau a'r pryderon diogelwch y mae gyrwyr sy'n mynd i mewn ac allan o Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn eu hwynebu, ar yr un pryd â gwella diogelwch beicwyr a cherddwyr.

Mae copi o'r Hysbysiad a chynlluniau'n dangos y ffyrdd y bydd y cynnig yn effeithio arnynt ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Gorllewin Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy CH5 1SA a Chyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd Yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau gwaith arferol.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod erbyn 20 Mawrth 2020, gan ddyfynnu'r cyfeirnod SS/TRO/LR/DLC

ATODLEN


Trefniant cyffordd â signalau traffig newydd, i gynnwys gosod Croesfan Twcan ar
gyfer cerddwyr

B5129 Chester Road East ger y gyffordd a'r fynedfa i Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy




Dyddiedig 28 Chwefror 2020



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




KEY

-  Proposed Upgrade of Existing Signals to incorporate a Toucan Crossing facility.
-  Proposed New Puffin Toucan Crossing.
-  Proposed No U Turn.



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386, Flintshire County Council, 2018.

PRELIMINARY	APPROVAL	CONSTRUCTION
Pl/Rev	Revision Details	Rev. by Chk. by Date



Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Streetscene

Project:		
Shotton Bus Lanes Scheme 2020 B5129 Chester Road West and Evans Way, Shotton New Traffic Lights and Crossings General Arrangement (Sheet 1 of 1)		
Flintshire County Council - Environment Directorate, County Hall I, Mold CH7 6NF		
Contact Name: Robin Nuesaw	Telephone: 01352 707777	
Drawn by: Nick Williams	Fax No: 01352 70	
Checked by: Anthony Standford	Date: Feb 2020	Sheet 1 of 1
Scales at A0:	Drawing No: HT/20/BUSL/001	Phase/Rev: P1